



**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**  
**Older People's Commissioner for Wales**

---

# **Arweinydd Gwahaniaethu ar Sail Oed**

**Gwybodaeth i ymgeiswyr**

**Dyddiad Cau: Dydd Mercher 11 Medi 2019**

**Llais ac eiriolwr annibynnol  
ar gyfer pobl hŷn**

# Cynnwys

---

<b>Cyflwyniad</b>	<b>3</b>	<b>Sut i ymgeisio</b>	<b>13</b>
<b>Ynglŷn â'r Comisiynydd</b>	<b>4</b>	Sut i wneud cais	14
Pwy ydyn ni a beth rydym yn ei wneud	5	Canllawiau ar sut i wneud cais	15
Cyflogwr rhagorol	6	Cyflwyno eich cais	16
<b>Ynglŷn â'r rôl</b>	<b>7</b>	Y broses ddethol	17
Pwrpas y rôl	8	Diogelu data	18
Dylestwyddau cyffredinol pawb sy'n gyflogedig	10		
Manyleb y person	11		

# Cyflwyniad

---

Diolch am eich diddordeb yn rôl Arweinydd Gwahaniaethu ar Sail Oed gyda Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru.

Mae'r pecyn gwybodaeth hwn yn cynnwys gwybodaeth bellach am y Comisiynydd, y rôl a manylion ynghylch sut i ymgeisio.

Bydd deiliad y swydd yn arwain ar flaenoriaeth y Comisiynydd o weithredu i roi terfyn ar oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oed yng Nghymru, yn benodol:

- Arwain datblygiad a gweithrediad yr ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth, newid agweddau ac ymdrin ag oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oed
- Datblygu a chynnal perthnasau adeiladol a dylanwadol gyda rhanddeiliaid allweddol er mwyn achosi newid
- Arwain ynglŷn â datblygu, gweithredu a hyrwyddo adnoddau er mwyn galluogi pobl hŷn i nodi a herio oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oed
- Gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus i wella dealltwriaeth o natur gwahaniaethu ar sail oed a wynebier gan bobl hŷn a sicrhau bod hyn yn cael ei adlewyrchu yn briodol mewn deddfwriaeth, canllawiau ac arferion yng Nghymru

Bydd deiliad y swydd yn darparu cyfeiriad a chefnogaeth i staff ac yn sicrhau dull gweithredu cydlynol a chyd-gysylltiedig o ran cynnwys ac ymgysylltu â phobl hŷn ar lefel leol a rhanbarthol.

Gellir canfod Manyleb y Person ar dudalen 11 y pecyn hwn. Os gallwch chi gynnig y math cywir o wybodaeth, sgiliau a phrofiad, yn ogystal â dangos ymrwymiad i rôl y Comisiynydd ac i wella bywydau pobl hŷn yng Nghymru, yna edrychwn ymlaen yn fawr at dderbyn eich cais.

**1**

# **Ynglŷn â'r Comisiynydd**

# Pwy ydyn ni a beth rydym yn ei wneud

---

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn gwarchod ac yn hybu hawliau pobl hŷn ledled Cymru, gan graffu a dylanwadu ar amrywiaeth eang o bolisïau ac arferion er mwyn gwella eu bywydau. Mae'n darparu cymorth a chefnogaeth yn uniongyrchol i bobl hŷn drwy ei thîm gwaith achos ac mae'n gweithio i rymuso pobl hŷn a sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed a bod rhywun yn gweithredu yn ei gylch. Mae rôl y Comisiynydd yn seiliedig ar gyfres unigryw o bwerau cyfreithiol i'w chefnogi i adolygu gwaith cyrff cyhoeddus a'u dal i gyfrif pan fo angen.

Penodwyd Heléna Herklots yn Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru ym mis Awst 2018.

Ym mis Ebrill 2019, cyhoeddodd y Comisiynydd strategaeth tair blynedd gyda gweledigaeth i **wneud Cymru y lle gorau yn y byd i fynd yn hŷn ynddo**. Ffocws gwaith y Comisiynydd yn ystod y tair blynedd nesaf fydd tair blaenoriaeth a fydd yn helpu i drawsnewid y profiad o fynd yn hŷn yng Nghymru:

- Rhoi diwedd ar oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oedran
- Atal cam-drin pobl hŷn
- Galluogi pawb i heneiddio'n dda

I gael mwy o wybodaeth am y Comisiynydd a'n gwaith ewch i [www.olderpeoplewales.com](http://www.olderpeoplewales.com)

# Cyflogwr rhagorol

---

Drwy weithio i'r Comisiynydd, caiff gweithwyr y cyfle i fod yn rhan o sefydliad deinamig a phrysur sy'n sicrhau canlyniadau cadarnhaol er mwyn gwneud Cymru yn lle da i dyfu'n hŷn.

Mae'r sefydliad yn ddeiliad y Wobr Iechyd Gweithle Bach (Aur), sy'n cydnabod y darpariaethau sydd yn eu lle i ddarparu amgylchedd diogel, iach a chefnogol ar gyfer yr holl gyflogeion. Gwneir ystod eang o ddarpariaethau ar gyfer staff i hyrwyddo lles gan gynnwys Rhaglen Cymorth i Weithwyr, rhaglen gynhwysfawr o ddysgu a datblygu, a darpariaeth Iechyd Galwedigaethol.

Mae cydraddoldeb a hawliau dynol wedi'u gwreiddio drwy holl waith y Comisiynydd a'r sefydliad ac mae hyn yn ymestyn i sicrhau gweithle sy'n darparu cydraddoldeb, urddas a pharch i bob cyflogai. Nodir ymrwymiad y Comisiynydd i gydraddoldeb yn ei Chynllun Cydraddoldeb Strategol.

Mae'r Comisiynydd yn sicrhau drwy ei gwaith, fod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal.



**2**

**Ynglŷn â'r rôl**

# Pwrpas y rôl

---

- Arwain y flaenoriaeth o weithredu i roi terfyn ar oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oed:
    - Datblygu, gweithredu a rheoli maes oedraniaeth rhaglen waith y Comisiynydd, wedi'i gefnogi gan ddamcaniaeth o newid
    - Datblygu a chynnal perthnasau adeiladol a dylanwadol â rhanddeiliaid allweddol er mwyn achosi newid
    - Rhannu dysgu, gwybodaeth a mewnwelediadau a darparu cefnogaeth cymheiriaid er mwyn arwain cydweithwyr a'r sefydliad ehangach i sicrhau cyflawniad effeithiol o raglen waith y Comisiynydd.
  - Arwain datblygiad a gweithrediad yr ymgyrchoedd sy'n ymwneud ag oedraniaeth a gwahaniaethu, gweithio gyda'r Pennaeth Cyfathrebu er mwyn:
    - codi ymwybyddiaeth y cyhoedd ynglŷn ag oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oed
    - newid agweddau tuag at oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oed
    - herio ac ymdrin ag oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oed
  - Nodi a datblygu cyfleoedd i weithio gydag amrediad eang o randdeiliaid er mwyn adeiladu rhwydweithiau o gefnogaeth i roi terfyn ar oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oed.
  - Nodi, datblygu ac arwain ar brosiectau sy'n cyfrannu tuag at flaenoriaeth y Comisiynydd o roi terfyn ar oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oed.
  - Gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus i wella dealltwriaeth o natur gwahaniaethu ar sail oed a wynebir gan bobl hŷn a sicrhau bod hyn yn cael ei adlewyrchu yn briodol mewn deddfwriaeth, canllawiau ac arferion yng Nghymru.
  - Sicrhau craffu ar ddeddfwriaeth, polisïau, rheoliadau, canllawiau a dyraniad adnoddau arfaethedig a phresennol er mwyn nodi a herio gwahaniaethu ar sail oed, gan wneud ymholiadau os oes angen.
-



- Datblygu sail tystiolaeth, gyda chefnogaeth gan y Dadansoddwr Data ac Ymchwil, sy'n dangos graddau'r oedraniaeth a nodi ffyrdd effeithiol o ymdrin â hi.
- Gweithio gyda'r Arweinydd Hawliau a Chydraddoldebau i dynnu ar brofiad a thystiolaeth ryngwladol sy'n ymwneud â sut i roi terfyn ar oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oed a datblygu cysylltiadau proffesiynol â'r rhai hynny sy'n gweithio i roi terfyn ar oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oed mewn gwledydd eraill.
- Datblygu fframwaith mewnol i werthuso effeithiolrwydd gwahanol ddulliau tuag at herio ac ymdrin ag oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oed.
- Arwain wrth ddatblygu, gweithredu a hyrwyddo adnoddau, gyda chefnogaeth gan yr Arweinydd Ymgysylltu, galluogi pobl hŷn i adnabod a herio oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oed.
- Sicrhau bod ymarfer sy'n pontio'r cenedlaethau yn cael ei weld yn hanfodol i roi terfyn ar oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oed.
- Nodi a chyflawni cyfleoedd ar gyfer pobl hŷn i herio oedraniaeth yn effeithiol er mwyn cyflawni newid.
- Cynrychioli'r Comisiynydd mewn digwyddiadau a galwadau sy'n ymwneud â blaenoriaeth oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oed ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol – gan roi cyflwyniadau a sgysiau cyhoeddus, hwyluso gweithdai a chadeirio cyfarfodydd a digwyddiadau.
- Cynrychioli'r Comisiynydd ar grwpiau a rhwydweithiau yng Nghymru a'r DU sy'n ymwneud â blaenoriaeth oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oed.
- Darparu cefnogaeth i'r Comisiynydd fel y bo angen ar gyfer adroddiadau, cyfarfodydd briffio, areithiau a blogiau.
- Gweithio gyda thîm Gwaith Achos y Comisiynydd ynglŷn ag ymholiadau sy'n ymwneud ag oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oed, gan sicrhau bod pobl hŷn yn derbyn y cyngor a'r gefnogaeth y maen nhw eu hangen.
- Rheoli ac adrodd ynglŷn â'r gyllideb flynyddol ar gyfer y flaenoriaeth oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oed.

# Dylestwyddau cyffredinol pawb sy'n gyflogedig

---

- Dangos ymrwymiad i hawliau dynol, cydraddoldeb ac amrywiaeth ar draws yr holl nodweddion gwarchoddedig.
- Cydweithio'n agos ag aelodau eraill o staff a mynd ati i gyfrannu at weithgorau a chyfarfodydd mewnol.
- Cynrychioli'r Comisiynydd yn gadarnhaol ac yn broffesiynol bob amser.
- Cymryd rhan mewn cyfleoedd ymgysylltu â phobl hŷn, gwybod y diweddaraf am faterion, pryderon a syniadau pobl hŷn er mwyn cyfrannu at ein gwaith a sut rydym yn ei gyflawni.
- Sicrhau bod gwaith yn cydymffurfio â dylestwyddau statudol y Comisiynydd, gweithdrefnau rheolaeth fewnol, fformatau adrodd a pholisïau ee gweithdrefnau ariannol, GDPR, y cynllun cyhoeddi, y cynllun cydraddoldeb, y gweithdrefnau rheoli gwybodaeth, Safonau'r Gymraeg a pholisïau a gweithdrefnau diogelu.
- Ymgymryd ag unrhyw ddylestwyddau a chyfrifoldebau eraill sy'n addas ar gyfer y raddfa, fel sy'n ofynnol o fewn rheswm.

# Manyleb y person

Mae'r Fanyleb hon yn pennu'r sgiliau, gwybodaeth, cymwysterau a'r profiad blaenorol sydd eu hangen ar gyfer y swydd arbennig hon.

Mae'r adrannau **Sgiliau**, **Gwybodaeth** a **Phrofiad** yn disgrifio'r hyn sy'n ofynnol o ran y gallu technegol sydd ei angen i gyflawni'r swydd hon yn llwyddiannus.

<b>Cymwysterau</b>	<b>Hanfodol</b>	<b>Dymunol</b>
	Gradd neu gymhwyster lefel proffesiynol o ddisgyblaeth berthnasol neu brofiad gwaith perthnasol sy'n cyfateb i hyn.	Rheoli prosiect

<b>Profiad</b>	<b>Hanfodol</b>	<b>Dymunol</b>
	<p>Profiad ar lefel uwch a hanes blaenorol profedig o ddatblygu cynghreiriau a gweithio gyda rhanddeiliaid i ddylanwadu ar newid cadarnhaol ar gyfer pobl</p> <p>Cofnodi cyrhaeddiad o gyflawni amcanion a dod o hyd i atebion arloesol i broblemau</p> <p>Hanes blaenorol profedig o ymgyrchu dros newid</p> <p>Hanes blaenorol profedig o ddatblygu, rheoli a chyflawni ymgyrchoedd a phrosiectau lluosog mewn amseroedd byr gyda chyllidebau / adnoddau cyfyngedig</p> <p>Profiad o ysgrifennu ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd allanol ac ar gyfer defnydd y cyhoedd</p>	<p>Profiad o ymgyrchu ynglŷn â materion sy'n gysylltiedig â gwahaniaethu a chydaddoldeb</p> <p>Profiad o weithio gyda phobl hŷn ar lefel llawr gwlad</p> <p>Profiad o weithio gyda rhwydweithiau a rhanddeiliaid perthnasol</p>

<b>Gwybodaeth</b>	<b>Hanfodol</b>	<b>Dymunol</b>
	<p>Gwybodaeth a dealltwriaeth y gellir eu dangos ynglŷn â deddfwriaeth berthnasol</p> <p>Dealltwriaeth o'r materion sy'n effeithio ar bobl hŷn yng Nghymru</p> <p>Dealltwriaeth o'r amgylchedd gwleidyddol yng Nghymru a sut i ddylanwadu ar yr agenda wleidyddol o fewn y cyd-destun datganoledig yng Nghymru</p>	<p>Dealltwriaeth o Fentrau Ystyriol o Oedran</p> <p>Dealltwriaeth o'r materion sy'n effeithio ar bobl hŷn yng Nghymru</p>

<b>Sgiliau</b>	<b>Hanfodol</b>	<b>Dymunol</b>
	<p>Tra llythrennog, gyda sgiliau ysgrifenedig a llafar ardderchog</p> <p>Gallu i adeiladu perthnasau, gweithio a dylanwadu ar amrediad o randdeiliaid a gwneuthurwyr penderfyniadau allweddol ar lefel uchel</p> <p>Sgiliau ardderchog o reoli prosiectau</p> <p>Gallu i weithio ar eich liwt eich hun gydag ychydig iawn o arolygiaeth</p> <p>Sgiliau dadansoddol manwl gywir ac effeithiol</p> <p>Gallu i gyfathrebu gydag awdurdod</p> <p>Gallu i feddwl yn greadigol ac arloesol er mwyn cyflawni nodau ac amcanion</p> <p>Y gallu i gyflwyno gwybodaeth gymhleth ar lefel briodol ar gyfer amrediad eang o gynulleidfaoedd</p> <p>Sgiliau TG ardderchog a'r gallu i ddefnyddio amrediad o becynnau TG</p> <p>Gallu i ddefnyddio neu ddysgu am becynnau TG sy'n ymwneud â rheoli prosiectau ac ymgysylltu â rhanddeiliaid</p>	<p>Gallu cyfathrebu'n fedrus yn y Gymraeg gydag aelodau o'r cyhoedd a rhanddeiliaid allanol</p>

<b>Gofynion Penodol</b>	<b>Hanfodol</b>	<b>Dymunol</b>
	Parodrwydd i deithio drwy Gymru a'r DU	



## **Sut i ymgeisio**

# Sut i wneud cais

---

I wneud cais, dylech lenwi a dychwelyd [Ffurflen Gais](#), lle y gofynnir i chi wneud y canlynol:

- 1) Darparu eich manylion personol.
- 2) Cwblhau datganiad cefnogol a ddylai amlinellu eich addasrwydd ar gyfer y rôl. Dylai eich datganiad cefnogol ddangos tystiolaeth glir o'ch gwybodaeth, sgiliau, profiad a gallu i arwain yng nghyswllt rôl Dadansoddwr Data ac Ymchwil, a chynnwys enghreifftiau i ddangos eich llwyddiannau a'ch cymhwysedd yn effeithiol. Mae croeso i chi ymgeisio drwy gyfrwng y Gymraeg, y Saesneg, neu yn y ddwy iaith. Gallai eich cais gael ei gyfieithu i'r Gymraeg neu'r Saesneg os bydd angen.
- 3) Rhowch fanylion dau unigolyn y gallwn eu holi, sy'n barod i fod yn ganolwyr i chi yn rhinwedd swyddi academiaidd neu broffesiynol. Dylai'r unigolyn sy'n eich cyflogi ar hyn o bryd neu eich cyflogwr mwyaf diweddar fod yn un ohonynt.
- 4) Llenwi'r [Ffurflen Monitro Amrywiaeth](#). Caiff y wybodaeth ar y ffurflenni hyn ei thrin yn gyfrinachol a'i defnyddio i ddibenion ystadegol yn unig. Ni chaiff y ffurflenni hyn eu trin fel rhan o'ch cais, ac ni fydd neb sy'n rhan o'r broses gwneud penderfyniad ar ddethol ymgeiswyr yn cael eu gweld.

Ni allwn ystyried ceisiadau hwyr neu geisiadau anghyflawn. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau fod eich cais yn cwrdd â'r gofynion a nodir uchod ac y bydd y Comisiynydd yn ei dderbyn erbyn y dyddiad cau.

**Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais yw dydd Mercher 11 Medi 2019 am 4.00yp.**

Ni ellir ystyried ceisiadau a dderbynnir ar ôl yr amser a'r dyddiad hwnnw, am ba reswm bynnag.

# Canllawiau ar sut i wneud cais

---

Bydd y ffurflen gais y byddwch yn ei llenwi yn allweddol yn y broses dethol, ac yn penderfynu a gewch eich galw i gyfweiliad neu beidio. Mae'n hollbwysig felly y dylech chi gymryd eich amser drosti a'i chwblhau mor llawn a chywir ag y gallwch.

- Darllenwch y disgrifiad swydd, a'r canllawiau hyn, yn ofalus cyn dechrau llenwi'r ffurflen gais. Gall y ffurflen gael ei llenwi yn Gymraeg neu Saesneg a rhaid ei llenwi mewn inc neu deipysgrif ddu.
- Rhaid i'r ffurflen gais ein cyrraedd erbyn y dyddiad cau sydd wedi'i nodi ar yr hysbysiad a/neu'r disgrifiad swydd.
- Mae'r ffurflen gais ar gael fel dogfen MS Word: fe'ch anogir i lenwi'r fersiwn Word a'i e-bostio ynghyd â'r ffurflen Monitro Amrywiaeth at [recruitment@olderpeoplewales.com](mailto:recruitment@olderpeoplewales.com).
- Dogfen wedi'i chloi yw'r fersiwn MS Word. Ddylech chi mo'i newid mewn unrhyw ffordd: gallai hynny arwain at wrthod eich cais.
- Dylai ymgeiswyr sy'n anfon eu ceisiadau drwy'r e-bost nodi mai cyfrifiadur y Comisiwn fydd yn diffinio pa bryd y mae eu cais wedi dod i law. Dylai ymgeiswyr y mae'n well ganddyn nhw anfon eu ffurflen Gais a'u ffurflen Monitro Amrywiaeth drwy'r post anfon y dogfennau hyn at Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Adeiladau Cambrian, Sgwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd, CF10 5FL. Sylwch nad yw'r dosbarth cyntaf yn warant y bydd y post yn cyrraedd drannoeth. Wnawn ni ddim derbyn unrhyw gais y gofynnir i ni dalu diffyg tâl amdano.
- Rhaid ichi lenwi pob rhan o'r ffurflen. Gall methu â gwneud hyn arwain at wrthod eich cais.
- Wrth ateb adran 12 a 13, cyfeiriwch at bob un o'r meini prawf sydd wedi'u rhestru ym manyleb y person er mwyn sicrhau eich bod yn dangos eich gwybodaeth, profiad a chyflawniadau. Caiff y rhestr fer ei thynnu ar sail y wybodaeth a nodwch.
- Bydd disgwyl i'r ymgeiswyr ar y rhestr fer ddangos eu cymhwysedd yn y cyfweiliad. Bydd cwestiynau'r cyfweiliad ac unrhyw asesiadau perthnasol yn seiliedig ar y cymhwyseddau a nodir ar gyfer y swydd hon.
- Cadwch at y mwyafswm geiriau sydd wedi'i nodi yn y ffurflen gais. Wnawn ni ddim ystyried unrhyw ddatganiad sy'n mynd dros y mwyafswm hwn.
- Llenwch y Ffurflen Monitro Amrywiaeth. At ddibenion monitro yn unig y mae hon. Fydd y manylion y byddwch yn eu rhoi ddim yn cael eu hanfon at y panel sy'n llunio'r rhestr fer na'r panel cyf-weld
- Rydyn ni'n argymhell y dylech wneud copi o'ch ffurflen ar ôl ei llenwi a chopi o'r disgrifiad swydd

# Cyflwyno eich cais

---

Rydym yn eich annog i gyflwyno'ch ffurflen gais yn electronig i'r cyfeiriad e-bost canlynol erbyn y dyddiad cau: [recruitment@olderpeoplewales.com](mailto:recruitment@olderpeoplewales.com)

Fel arall, gallwch ei hargraffu a'i hanfon at:

Kelly Davies  
Prif Swyddog Gweithredol  
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru  
Adeiladau Cambrian  
Sgwâr Mount Stuart  
Caerdydd  
CF10 5FL

## Ymholiadau Pellach

I wneud ymholiadau anffurfiol ynghylch yr ymarfer recriwtio hwn, cysylltwch â Kelly Davies ar 029 2044 5030 neu drwy e-bost at [recruitment@olderpeoplewales.com](mailto:recruitment@olderpeoplewales.com)



# Y broses ddethol

---

## Didoli cychwynnol

Bydd y panel dethol yn ystyried pob cais cyflawn. Bydd y panel yn ystyried y wybodaeth, y sgiliau, y profiad perthnasol a'r gallu i arwain a ddangosir yn eich cais. Mae'r wybodaeth a roddwch i ni yn eich cais felly'n hanfodol o ran penderfynu a fyddwch yn cael eich rhoi ar y rhestr fer ar gyfer ystyriaeth bellach.

## Cyfweliad

Yn dilyn y gwyntyllu cyntaf fe eir ati i lunio rhestr fer, a gwahoddir y rhai a fydd ar y rhestr i fynychu cyfweliad gan banel yn Swyddfa'r Comisiynydd yng Nghaerdydd **ddydd Llun 30 Medi**.

Os byddir yn llwyddo yn y cyfweliad hwnnw gwahoddir yr ymgeiswyr i ail gyfweliad **ddydd Mawrth 8 Hydref**.

## Amserlen

Rhoddir crynodeb o'n hamserlen isod. Os byddwch yn llwyddiannus yn y didoli cychwynnol, bydd disgwyl i chi sicrhau eich bod ar gael ar y dyddiadau cyfweld. Mae'n bosibl na roddir ystyriaeth i ymgeiswyr na allant fod ar gael i fynychu cyfweliad ar y dyddiad a gynigir.

**Dyddiad Cau: Dydd Mercher 11 Medi 2019 at 4.00yp**

**Cyfweliad cam un: Dydd Llun 30 Medi 2019**

**Cyfweliad cam dau: Dydd Mawrth 8 Hydref 2019**

# Diogelu data

---

Dan Ddeddf Diogelu Data 1998, mae gennym ddyletswydd gyfreithiol i ddiogelu unrhyw wybodaeth a gasglwn amdanoch. Mae'r Comisiynydd wedi ymrwymo i barchu a diogelu'r wybodaeth bersonol rydych yn ei rhannu â ni.

Bydd y wybodaeth rydym yn ei chasglu ac yn ei phrosesu yng nghyswllt eich cais yn cael ei thrin yn unol â, ac yn amodol ar, ddarpariaethau statud a rheoliadau sydd mewn grym ar hyn o bryd e.e. Deddf Diogelu Data 1998 a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Dim ond at ddibenion prosesu eich cais byddwn yn defnyddio'r wybodaeth rydych yn ei rhoi, ac fel rhan o'ch cofnod cyflogaeth pe bai eich cais yn llwyddiannus.

Cedwir gwybodaeth bersonol am ymgeiswyr aflwyddiannus am hyd at ddeuddeg mis ar ôl i'r ymarfer recriwtio ddod i ben, at ddibenion monitro cydraddoldeb. Efallai y byddwn yn cysylltu â chi yn ystod y cyfnod hwn i roi gwybod i chi am swyddi gwag tebyg sy'n codi; yna bydd yr wybodaeth yn cael ei dinistrio neu ei dileu.

Ni fyddwn yn rhoi eich manylion i unrhyw drydydd parti heb eich caniatâd penodol i wneud hynny. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau am y modd rydym yn ymdrin â gwybodaeth bersonol at y Rheolwr Diogelu Data.

